

Digidol 2030: Templed sylfaenol astudiaeth achos

Arfer Da / Arloesi

Hoffem ddarparu ychydig o astudiaethau achos cychwynnol gyda'r fersiwn nesaf o fframwaith **Digital 2030**, gan ddangos sut mae gwahanol fathau o ddarparwyr wedi ymateb i'r fframwaith hyd yma, gan amlygu enghreifftiau o arfer da ac arloesedd, a dangos gwahanol fannau cychwyn sefydliadau unigol.

Mae astudiaeth achos bosibl wedi'i nodi o'ch ffurflen adborth darparwr, a byddai gennym ddiddordeb mewn:

- Darganfod rhagor o wybodaeth
- Gwirio a fyddai eich sefydliad yn barod i gyflwyno astudiaeth achos

Trafodir astudiaethau achos awgrymedig yng nghyfarfod nesaf Grŵp Llywio **Digidol 2030** ddechrau mis Mawrth 2019.

Nodwch pa fath o ddarparwr dysgu Ôl-16 yw eich sefydliad:	
√	Coleg AB
	Darparwr DSW
	Darparwr AL

Astudiaeth achos a awgrymir (o ffurflen adborth y darparwr):

“Yn 2016/17 penderfynodd y Coleg gefnogi pob aelod o staff i gyflawni cymhwyster Technoleg Ddigidol lefel 2 i gynorthwyo i gyflawni ei flaenoriaeth strategol o sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau TGCh i'w paratoi at fywyd gwaith cynhyrchiol. Ers hynny mae dros 850 o staff wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 yn llwyddiannus. Mae gweddill y staff yn cyfranogi yn y rhaglen ar hyn o bryd ac mae'r Coleg yn ystyried sut i gynorthwyo staff, lle bo'n briodol, i barhau a gwella eu sgiliau digidol.”

Rhowch drosolwg cryno o'ch astudiaeth achos:

Cyd-destun

Mae'r rheswm dros sicrhau bod gan yr holl staff gymhwyster Llythrennedd Digidol Lefel 2 yn cynorthwyo i gyflawni cynllun strategol Coleg Cambria 2016-2020 i 'sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau TGCh sy'n eu paratoi at fywyd gwaith cynhyrchiol'. Felly roedd yn bwysig sicrhau bod yr holl staff yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i gynorthwyo dysgwyr â'u sgiliau digidol gan alluogi dysgwyr i ddefnyddio'r sgiliau yn ystod cyflogaeth.

Trosolwg o'r rhaglen:

Yn 2016/17 darparwyd y rhaglen Llythrennedd Digidol Lefel 2 a achredwyd trwy City and Guilds i holl staff Coleg Cambria ei mynychu. Ar hyn o bryd mae 850 o staff Coleg Cambria wedi cwblhau a chyflawni'r cymhwyster.

Mae'r rhaglen yn cynnwys hyfforddiant hanner diwrnod (dwy awr yn datblygu sgiliau a dwy awr o ymarfer at y dasg rheoli) a thasg rheoli pum awr. Yn ogystal â hyn, mae gan staff drafodaeth strwythuredig i asesu dealltwriaeth ddyfnach a myfyrio ar beth wnaethant a beth y maent wedi'i ddysgu. Mae'r sesiynau hyfforddi a'r tasgau rheoli hefyd ar gael trwy nifer fwy o sesiynau byrrach, yn ystod y dydd neu gyda'r hwyr ac ar draws gwahanol safleoedd y coleg. Darperir sesiynau ychwanegol hefyd ar gyfer staff y mae angen iddynt datblygu sgiliau ychwanegol neu wneud gwaith paratoi ychwanegol at yr asesiad. Mae'r dull pwrpasol o gyflawni yn canolbwyntio ar lwyfan digidol cyson, Google Apps, yn sicrhau cysondeb a bod lefel uchel o sgiliau'n cael eu cynnal.

Mae'r hyfforddiant hanner diwrnod yn cynnwys datblygu sgiliau yn ymwneud â bob agwedd ar Lythrennedd Digidol, sy'n canolbwyntio ar apiau Google fel Google Drive, Google Docs, Hangouts, Gmail, Google Slides a Google Sites. Mae canolbwyntio ar gymwysiadau Google yn sicrhau bod staff yn datblygu sgiliau sy'n ategu'r cymwysiadau a ddefnyddir yn y coleg.

Mae'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys cwblhau tasg rheoli ymarfer ar bob agwedd ar yr asesiad i gynorthwyo staff i gyflawni gofynion y cymhwyster ac i ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o'r meini prawf asesu cyn y dasg rheoli crynodol.

Manteision i staff a dysgwyr

Mae annog staff i gwblhau'r cymhwyster Llythrennedd Digidol Lefel 2 wedi sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ddefnyddio a chael gafael ar yr ystod o Google apps a ddefnyddir yng Ngholeg Cambria, cyflawni eu rôl yn llwyddiannus a chefnogi'r coleg i gyflawni'r nod strategol.

Mae dysgwyr galwedigaethol hefyd yn cwblhau'r cymhwyster Llythrennedd Digidol Lefel 2 ochr yn ochr â'u prif raglen fel y gallant ddatblygu sgiliau llythrennedd digidol ymhellach o fewn y prif gymhwyster. Erbyn hyn mae staff wedi cydnabod manteision cwblhau'r cymhwyster eu hunain oherwydd gallant gynorthwyo eu dysgwyr yn fwy effeithiol i ddatblygu eu sgiliau digidol a chydnabod sut y bydd hyn o fudd i'w dysgwyr yn ystod cyflogaeth.

Adborth gan staff

Athrawon yn cyflwyno'r rhaglen Lefel 2

Nododd adborth gan ddau athro a gyflwynodd y rhaglen fod y rhaglen yr un mor fuddiol i staff presennol a staff newydd a gyflogir yn y coleg. Ategwyd hyn gan adborth uniongyrchol a gafwyd gan staff eraill a oedd yn mynychu'r rhaglen. Fe wnaeth staff newydd a gwblhaodd y rhaglen yn ystod y cyfnod sefydlu elwa ar yr hyfforddiant ynghylch yr holl gymwysiadau y bydd angen iddynt eu defnyddio wrth addysgu neu weithio yn y coleg. Canfu'r staff presennol yn y coleg fod

y rhaglen yn fuddiol i gynorthwyo â chyflwyno technegau mwy datblygedig a diweddarau gwybodaeth, a nododd staff hefyd y gellid defnyddio'r sgiliau i gynorthwyo dysgwyr y tu allan i amgylchedd y coleg, er enghraifft, i gynorthwyo eu plant eu hunain.

Esboniodd athro arall sy'n cyflwyno'r rhaglen y manteision i ddefnyddwyr presennol apiau dethol Google, nid oeddent yn aml â dealltwriaeth lawn o sut y gellir defnyddio'r apiau yn fwyaf effeithiol. Gallai'r cyfyngiad hwn fod o ganlyniad i ddefnyddio meddalwedd arall neu brinder amser i archwilio'r apiau'n llawn. Felly mae'r rhaglen wedi darparu cyfleoedd i ddatblygu hyder a hyblygrwydd staff ymhellach wrth ddefnyddio'r apiau.

Roedd dau aelod o staff a oedd yn fwy pryderus am gwblhau'r cymhwyster i ddechrau, yn cydnabod y manteision ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglen ac wedi ennill y cymhwyster, gan nodi ei fod wedi cael effaith gadarnhaol. Mewn un achos, creodd aelod o staff ei safle Google ei hun ar ôl yr hyfforddiant a rhannodd yr adnoddau fel y galli'r holl staff eu defnyddio yn yr adran.

Dyfyniadau gan staff

Mae adborth a dderbyniwyd gan staff ar gwblhau'r cymhwyster wedi cynnwys annog staff i ddefnyddio ystod ehangach o apiau Google i gydweithio neu i gynorthwyo myfyrwyr i ddysgu. Mae staff hefyd wedi nodi manteision gallu cynorthwyo eu dysgwyr ymhellach â'u sgiliau llythrennedd digidol eu hunain ac i bersonoli a herio dysgu ymhellach fel y dangosir yn y dyfyniadau gan staff isod.

Aseswr yn y Gwaith: Trin Gwallt

“Rwy'n credu bod gwneud fy nghwrs llythrennedd digidol wedi fy helpu i ddeall beth sydd angen i'm dysgwyr ei gyflawni yn eu cymhwyster. Hefyd mae wedi fy helpu i wneud pethau gwahanol nad oeddwn i'n eu gwybod o'r blaen ”

Athro: Tiwtor ESOL

“Fe wnaeth i mi fod yn fwy ymwybodol o beth gall Google ei gynnig ar wahân i'w e-bost yn unig. Cyn y cwrs, dim ond e-bost Google a Google Calendar y byddwn i'n eu defnyddio. Fel rhan o'r asesiad DL, fe wnaethom greu gwefan a defnyddio Hangouts, rhywbeth nad oeddwn wedi ei ddefnyddio'n flaenorol. ”

Athro: Tiwtor ESOL

“Fe wnaeth sicrhau fy mod i'n gwybod am Google Classroom ac rwyf wedi datblygu ymhellach ers hynny yn y maes hwn.”

Athro: Tiwtor ESOL

“Fe wnaeth y cwrs fy ngwneud i'n fwy hyderus wrth ddefnyddio Google at ddibenion heblaw e-bost. Cefais wybod am Google Classroom ac roeddwn yn gallu creu sawl ystafell ddosbarth i gynorthwyo fy dysgwyr â datblygiad eu hiaith. Rwyf wedi gallu creu ystafelloedd dosbarth penodol (gramadeg) a chyffredinol (sgiliau) er mwyn cyflawni

Nodwch gyfeiriad e-bost rhywun y gellir cysylltu ag ef neu hi pe bai angen eglurhad, neu i ddilyn i fyny drafftio astudiaeth achos lawn:

laura.shaw@cambria.ac.uk

targedau ILP dysgwyr fel eu bod yn gallu ymarfer eu gwallau / bylchau iaith unigol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Wrth ddwyn sylw myfyrwyr at gamgymeriad / bwlch naill ai trwy waith ysgrifenedig neu dasg siarad, cânt eu cyfeirio at y dosbarth / ffolder priodol i gynorthwyo i ddatblygu, cyfnerthu a sefydlu'r pwynt iaith penodol hwnnw. ”

Rheolwr Cwricwlwm

“Mae wedi helpu â chyfathrebu rhwng staff, ac mae mwy ohonynt yn defnyddio Google Chat a Hangouts yn ogystal â gwneud mwy o ddefnydd o Google Forms i gydweithio. Mae hefyd wedi rhoi mwy o hyder i rai ohonynt i helpu eu dysgwyr eu hunain i baratoi at gwblhau'r Sgiliau Hanfodol fel rhan o ofynion eu Fframwaith. Rwy'n teimlo bod hwn yn gymhwyster cynhwysol gwerthfawr i bawb. ”

Argymhellion i'r dyfodol

Mae argymhellion i barhau i gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd digidol wedi cynnwys darparu rhagor o hyfforddiant ynghylch Google Classroom i gyfnerthu'r manteision i athrawon a dysgwyr. Rhagor o gymorth a datblygiad gyda'r tîm TGD i gyfnerthu'r sgiliau presennol ymhellach ac ychwanegu atnynt. Gall hyn gynnwys cynyddu ystod a lefel y cymhwyster neu'r cymwysterau a gynigir oherwydd mae rhai aelodau o staff hefyd wedi nodi y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cwblhau cymhwyster Lefel 3.

Bydd cwblhau cymhwyster Lefel 3 yn gwella sgiliau aelodau o staff ymhellach i gynorthwyo eu dysgwyr ag apiau megis Google Forms ar gyfer asesu ffurfiannol a datblygu blogiau.

Nodwch y prif grŵp / grwpiau yn eich sefydliad sy'n rhan o'ch astudiaeth achos (ticiwch neu nodwch bopeth sy'n berthnasol):

	Dysgwyr
	Cyflwyno ac asesu'r cwricwlwm
	Ehangu cyfranogiad dysgwyr a chymorth ac adnoddau ar eu cyfler
	Ymgysylltu â chyflogwyr a chymunedau
√	Datblygiad staff
	Systemau a seilwaith menter
√	Arweinyddiaeth a Rheolaeth

l'wch y gall Llywodraeth Cymru gysylltu neu Jisc gysylltu â chi (oherwydd mae
ic yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i baratoi rhywfaint o'r deunydd sy'n
wneud â **Digidol 2030**).



Mae Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar
gael yn: [https://beta.gov.wales/welsh-government-
privacy-notice](https://beta.gov.wales/welsh-government-privacy-notice)